

# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed HYDREF 2020

## PRESENNOL:

Dim Cyfarfod oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr trwy e bost neu ffon.)

## YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 15ed MEDI 2020 YN GYWIR.

I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. ENF/2020/200. Tor Rheolaeth Cynllunio Honedig.  
Carafan Statig:- Adran wedi derbyn cwyn.  
Creigiau Bach, Llandrygarn.
2. HHP/2020/211. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn cynnwys balconi ynghyd a dymchwel a codi modurdy arwahan yn:-  
Simdde Wen, Bodffordd.  
Dim gwrthwynebiad.

PENDERFYNIADAU.

3. FLP/2020/122. Tyddyn Isaf, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.  
O ganlyniad ni fydd cyfarfodydd Cyngor Tref / Cymuned wyneb yn wyneb yn cael ei ganiatau ar hyn o bryd. Petai cyfarfod yn cael ei gynnal, mae'n debygol y byddai'r mynychwyr yn torri'r rheoliadau presennol.  
Debyn y wybodaeth. Mae yn edrych na fydd cyfarfod wyneb yn wyneb y flwyddyn yma.
5. *Cynorthwy-ydd Cymorth / Adran Democrataidd. Ffion Thomas.*  
Canolfannau Hamdden Mon Actif yn cael marciau uchaf yn dilyn Archwiliad Achubwyr Bywydau.  
Derbyn. Ei Llongyfarch.
6. Uwch Beiriannydd Traffig a Pharcio. Alun Roberts.  
Parcio ar Palmant Maes Twrog, Glanrafon, Tynlon.  
Mae llinell felen yn opsiwn. Sylwadau'r Cyngor Cymdeithas ar cynnig a oes cefnogaeth yma i gyflwyno gwaharddiad parcio llinellau melyn dwbl. Siop Glanrafon tuag at Siop Uchaf efallai Capel Maes y Llan.  
Bu trafodaeth o gael llinellau, gyda rhai Cynghorwyr yn ei cefnogi ar lleill yn erbyn.  
Oherwydd fod gwr Rhif 6 Maes Twrog, yn anabl (dim coesau) nid ydyw yn bosib iddo fynd i'r Maes Parcio. Hefyd Rhif 3 Maes Twrog, mae y ferch yma yn anabl, ac yn rhaid i'r gofalwyr a'r nyrses alw yn rheolaidd.  
Pasiwyd yn fwyafrif i adael y llinellau melyn ar hyn o bryd, a gweld beth fydd y canlyniad pan ddaw y ddeddf dim parcio ar balmant yn 2021 i fodolaeth.

Cynnig Cyng E D Owen, eilio Cyng H G Owen.

7. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.  
Diweddaraf Llywodraeth Cymru - Cofio 2020.  
Bydd gwahaniaeth eleni i`r sefyllfa oherwydd y Covid-19.  
Mae rhaid ystyried y sefyllfa bresennol, gan adlewyrchu`r rheoliadau sydd ar waith ar y pryd i gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi`r achlysur, er ei bod ar ffurf diwygiedig, gyda chyfranogiad yn agoriad maes cofio Cymru a gwyl cofio (dan arweiniad y Llang Brydenig Frenhinol) a`r Gwasanaeth cofio Cenedlaethol a fydd yn digwydd yn gyfyngedig. Gyda`r sefyllfa yn symud yn gyflym bydd dosbarthiad diweddariadau wrth iddynt ddiwydd.  
Dim sylw derbyn.
8. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.  
Cefnogi Lansiad ap Covid y GIG.  
Llywodraeth Cymru a llywodraeth Du wedi lansio ap Covid y gig ar y 24ain Fedi. Mae yn rhanbwysig o *Rhaglen profi olrhain diogelu i reoli lledaeniad Covid 19*.  
Derbyn y wybodaeth.
9. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.  
Datganiad: Ergyd fawr i economi Ynys Mon. Penderfyniad Hitachi i dynnu allan o brosiect Wylfa Newydd.  
Ond bydd y Cyngor Sir yn parhau i weithio gyda`r ddwy Lywodraeth er mwyn deall lle mae`r penderfyniad hwn yn gadael datblygiad posibl newydd yn y Wylfa.  
Derbyn. Y Cyngor yn siomedig o`r canlyniad.
10. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.  
Datganiad: Cadarnhad achos Coronafeirws yng Nghanolfan Addysg y Bont.  
Derbyn y wybodaeth.
11. Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Tudur H Jones.  
Dyfodol Cwrs Golff Llangefni.  
Cyfnod o Ymgynghori 12ed Hydref - 31ain Tachwedd 2020.  
Derbyn. Dim sylw.
12. Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Arwel G Evans.  
Gamfa Afallon am BrynMawr, Llynfaes.  
Wedi siarad a`r tirlfeddianwr eto ac wedi gyrru llythyr gorfodaeth (5.10.20)  
Rhybudd yn caniatáu i`r Cyngor drwsio`r Gamfa ei hunain ymhen pedair wythnos (ac adennill costau) os na fydd y tirlfeddianwr wedi gweithredu.  
Nid oes pŵer gan y Cyngor Sir i`w orfodi i rhoi ffens yn ol. Eiddo`r tirlfeddianwr.  
Pan fydd archwiliad ar y safle tro nesaf, bydd edrychiad a oes angen rhagor o arwyddion cyfeirio rhwng yr arwyddbost sydd ar ochr y ffordd a`r Gamfa Fetel sy`n arwain i / o`r cae.  
Y Cyngor yn teimlo na giat fochyn fuasai y gorau yn y gongl. Beth am y cwn yn yr ardd?

#### GOHEBIAETH (ARALL)

13. Medrwn Mon. Linda Jones.  
Cronfa Cymunedol ar gyfer plant a theuluoedd Ynys Mon.  
*Cyllid ar gael i barhau neu addasu gwaith presennol neu i dreialu gwaith newydd fydd yn cefnogi plant a theuluoedd o ganlyniad i Covid 19.*  
Dyrannwyd £25,000 o gyllid i Medrwn Mon, i gefnogi Mudiadau Gwirfoddol a Grwpiau Cymunedol sy`n darparu cefnogaeth ymateb hanfodol Covid 19 ar Ynys Mon.  
Gall Grwpiau wneud cais hyd £5,000, bydd disgwyl i gynygion gydymffurfio ag o leiaf un o egwyddorion y pum ffordd at les.  
Derbyn y wybodaeth. Nid oedd sylw gan y Cynghorwyr.

14. Grwp Cynefin. Dylan Owen.

Arolwg Tai Bodffordd. Holiadu'r Anghenion Tai Bodffordd. Safle Arfaethedig.

Rhodddwyd ymateb gan y Cyngor:-

Nid oes cefnogaeth i Haulfryn, Bodffordd.

Mae y fynedfa mewn lle peryglus, Cysgodfan Bws yn ochr a ceir yn parcio ar y lon yr ochr arall.

Dim yn blendio i'r ardal. Dyna pam wnaeth y Cyngor ddim son am y safle. Cynefin sydd wedi codi hwn.

Ymateb (Pryderon)

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod yr arolwg yn barod i'w gyfeithu cyn ei rannu.

Y cam nesaf yn y broses bydd rhannu darganfyddiadau'r arolwg gyda'r Cyngor Cymdeithas.

Mae'r adroddiad yn nodi pryderon unigolion a'r Cyngor Cymdeithas am y ddarpar safle "Haulfryn" a hefyd yn cyfeirio at ddarpar safleoedd eraill a gynigwyd.

Mater i'r partneriaid bydd penderfynu ar y ffordd ymlaen yn dilyn yr asesiad o'r angen lleol am dai fforddiadwy.

Mae croeso i gysylltu drwy ebost i drafod y mater yn bellach. Dylan.Owen@grwpcynefin.org.

15. Coed Mynwent Gymunedol. Cyngor Sir Ynys Mon. E Henderson.

Y coed sydd yma o'r chwith i'r dde i'w maffos maes a derwen goch a homebeam.

Mae difrod yn cael ei wneud i'r coed trwy gloddio.

Difrod i feddi oherwydd coed. Mae yn debyg na ddylai coed cael ei plannu mewn mynwentydd oherwydd:

Mae ganddynt wraidd eang ac yn estyn ymhell tu hwnt i'r hwyddiadau, gyda'r hwyddiadau yn agos i'r gwyneb yn arharu a'r cerrig beddi. Mae rhaid gwneud penderfyniad. (Rheolwyr y fynwent)

16. Valley Wings. Cylchgrawn. Derbyn.

17. Virginia Crosbie AS Ynys Mon. Derbyn a diolch.

RHODDION

18. Dim.

PLWYFOL

19. Dim.

MATERION ARIANNOL:

20. Cyfrif Rhedegol 11,367.87

TALIADAU:

21. Clerc £220.83.

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.